

Datganiad ynghylch Canolfan Ailgylchu Llangadog - 14.03.17

Yn anffodus, mae llawer o wybodaeth gamarweiniol yn cael ei rhannu am y sefyllfa mewn perthynas â chau canolfan ailgylchu Llangadog. Mae cyfres o ddigwyddiadau wedi effeithio ar y cau, fodd bynnag, mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol o ddiogelu'r wybodaeth gyfrinachol fasnachol sensitif sy'n ymwneud â'r trefniadau cytundebol.

Mae'r safle yn Llangadog yn eiddo preifat a weithredir gan AWS Ltd ac fel y cyfryw felly nid yw o fewn rheolaeth uniongyrchol y cyngor. Mae'r contract i weithredu'r safle i fod i gael ei adolygu ym mis Mawrth 2018, yn dilyn estyniad i'r contract gwreiddiol yn 2015. Fodd bynnag, oherwydd eu rhesymau busnes eu hunain, cyflwynodd AWS Ltd wltimatwm i'r awdurdod yn hydref 2016 yn dweud y byddent yn cau'r safle ar unwaith oni bai y gellid ail-drafod y telerau bryd hynny. Mewn ymgais i gadw'r cyfleuster ar agor, llwyddodd y cyngor i gyd-drafod trefniant dros dro lle byddai'r safle yn parhau ar agor tan fis Mawrth 2017. Sail y penderfyniad oedd rhoi cyfle i gynnal trafodaethau i sicrhau dyfodol y safle, o bosibl wrth i'r cyngor brydlesu'r safle'n uniongyrchol neu brynu'r safle gyda'r bwriad o weithredu'r cyfleuster ein hunain. Mewn gwirionedd roedd hyn yn golygu bod y contract gwreiddiol, gyda'r adolygu gwreiddiol yn 2018, wedi'i ddirwyn i ben yn yr hydref 2016.

Yn y cyfamser mae swyddogion y Cyngor wedi gweithio'n galed i gyd-drafod gyda pherchnogion y safle, ond yn anffodus nid yw'r ddau barti wedi gallu cyrraedd canlyniad boddhaol i'r ddwy ochr er mwyn darparu cyfleuster sy'n addas i'r diben ac yn fforddiadwy. Yn benodol, mae'r cyngor wedi bod yn pryderu am iechyd a diogelwch gweithrediadau ar y safle, gan fod y safle a gynigir gan AWS Ltd yn y trafodaethau'n llai na'r safle presennol. O ganlyniad, bydd y cytundeb rhwng AWS Ltd a Chyngor Sir Caerfyrddin yn dod i ben ar 31 Mawrth.

Mae trefniadau eraill wedi'u gwneud i ddarparu banciau ailgylchu ychwanegol yn Llanymddyfri. Cychwynnodd cyfnod prysur o chwilio am safleoedd newydd unwaith y daeth yn amlwg nad oedd unrhyw gynnydd yn debygol o gael ei wneud mewn perthynas â'r cyfleuster presennol. Mae cyfleuster newydd ar gyfer ailgylchu glân yn unig wedi ei drefnu ar safle Clwb Rygbi Llanymddyfri, diolch i drafodaethau ffrwythlon gyda phwyllgor y clwb. Gobaith y cyngor yw y bydd y safle newydd yn agor erbyn 1 Ebrill.

Ni fydd y safle newydd yn Llanymddyfri yn darparu ar gyfer gwastraff bagiau du, gwastraff gardd, nwyddau trydanol a phren ac ati, a dylid cludo'r eitemau hyn i'r ganolfan ailgylchu agosaf yn Wernddu ger Rhydaman. Fodd bynnag, bydd yn cynnig darpariaeth ailgylchu ychwanegol yn yr ardal i lenwi rhai o'r bylchau a adawyd yn sgil cau cyfleuster Llangadog. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol iawn na fydd y cyfleusterau yn y clwb rygbi'r un fath â'r rhai blaenorol, ac na fyddant yn cyflawni'r un diben â safle Llangadog. O ystyried y sefyllfa a'r amserlenni dan sylw, rydym wedi gwneud ein gorau o dan amgylchiadau anodd. Bydd anghenion ac atebion tymor hwy yn cael eu hystyried dros y misoedd nesaf.

Rydym yn sylweddoli y bydd trigolion yn bryderus am dipio anghyfreithlon posib, ac rydym yn rhannu'r pryderon hyn; yn anffodus mae yna leiafrif o bobl anghyfrifol sy'n dewis torri'r gyfraith yn y modd hwn, pa bynnag gyfleusterau a ddarperir gennym. Gallwn sicrhau trigolion y bydd y cyngor yn parhau i ymchwilio i'r achosion hyn ac yn erlyn y rhai sy'n gyfrifol am y math hwn o drosedd amgylcheddol lle bo modd. Dylai trigolion rannu unrhyw wybodaeth sydd ganddynt yn ymwneud ag achosion o dipio anghyfreithlon â ni.

Mae rhai trigolion wedi mynegi pryder bod adroddiad wedi'i drafod yn breifat gan y Bwrdd Gweithredol ddydd Llun. Hoffem ei gwneud yn glir bod testun yr adroddiad yn ymwneud â chontract

gwaredu a thrin gwastraff hirdymor y cyngor sydd gan Cwm Environmental Ltd ar hyn o bryd, ac nid oedd yn ymwneud ag unrhyw safleoedd unigol.